Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

4 Rhagfyr 2017

Annwyl Mike

**Gweithdy Rhanddeiliaid Polisi Adnoddau Naturiol**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd 2017 ar y Polisi Adnoddau Naturiol, lle rydych yn cyflwyno argymhellion gan eich gweithdy rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses weithredu ac i awgrymu gwelliannau ar gyfer fersiwn nesaf y polisi. Er hwylustod cyfeirio, rwyf wedi ymateb gan ddefnyddio'r penawdau yn eich llythyr chi.

**Diben ac alinio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Fel ail gynnyrch allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru), rôl y Polisi Adnoddau Naturiol yw egluro'r risgiau a'r cyfleoedd trosfwaol sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru a nodi'r blaenoriaethau allweddol y byddwn yn eu datblygu fel Llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â hwy. Wrth ddatblygu'r polisi statudol cyntaf hwn, rydym wedi nodi tair blaenoriaeth genedlaethol, sef darparu atebion yn seiliedig ar natur; cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy; a defnyddio dulliau seiliedig ar lefydd. Datblygwyd y blaenoriaethau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru, gwireddu'r cyfleoedd sylweddol, a chyfrannu ar draws y nodau llesiant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth fwrw ymlaen â gweithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, mae'r polisïau sydd yn y ddogfen yn hanfodol er mwyn ei gyflawni, ac mae gwaith eisoes ar y gweill o fewn y meysydd polisi unigol yn fy Adran i - er enghraifft, mae'r *Strategaeth Dŵr i Gymru* yn amlinellu sut y mae'n cefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r nodau llesiant wrth gyflawni gweledigaeth y strategaeth. Mae Strategaeth Wastraff Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, wedi gwneud cynnydd sylweddol eisoes tuag at wella effeithlonrwydd adnoddau. Gan adeiladu ar y llwyddiant mawr ym maes ailgylchu, bydd yn cael ei diweddaru yn 2018 gyda datblygiad trywydd ar gyfer economi a fydd yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Datblygwyd *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru* i gefnogi cyflwyno'r Polisi Adnoddau Naturiol ac, yn fwy eang, bydd cyflwyno Deddf yr Amgylchedd a'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn symud y ddarpariaeth rheoli llifogydd naturiol ac addasiad arfordirol yn ei blaen.

O ran ystyriaethau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhan bwysig o ddarpariaeth y fframwaith trosfwaol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys yr egwyddorion allweddol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a ddatblygwyd i roi'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol Cymru. Felly, mae'r ddwy Ddeddf yn sbarduno ymagwedd sy'n sicrhau bod y cyfraniad ar draws pob un o'r pedwar maes yn cael ei ystyried yn llawn, fodd bynnag mae'r pwyslais ar nodi'r cam sy'n gallu sbarduno'r buddiannau mwyaf. Y blaenoriaethau a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol yw'r rhai sydd â'r potensial i gyfrannu at ein datblygiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy. Gyda chanllawiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith yn barod, rydym yn gweithio ar feysydd allweddol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a fydd yn atodi'r wybodaeth esboniadol rydym wedi'i chynhyrchu eisoes am y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau ac i Cyfoeth Naturiol Cymru ar roi Rhan 1 o'r Ddeddf ar waith.

**Rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith**

Mae cydweithredu yn rhan annatod o'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Fel yr amlinellir uchod, mae gwaith yn cael ei wneud eisoes i sicrhau bod y polisïau allweddol ar draws fy mhortffolio yn gweithio tuag at ddarparu'r Polisi Adnoddau Naturiol. Wrth wneud hynny, gan adlewyrchu gofynion y Deddfau, mae cydweithredu â rhanddeiliaid yn rhan allweddol o'r gwaith ym mhob maes polisi. Yn ogystal, wrth gynhyrchu'r Polisi Adnoddau Naturiol, cafodd ei ddatblygiad ei lywio trwy ymgysylltu â phob math o randdeiliaid o'r sector ac ar draws sectorau, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus mwy traddodiadol. Gwnaeth *Grŵp Bord Gron ar Brexit Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig* gyfraniad allweddol at y broses hon, gan danlinellu pwysigrwydd Brexit a'i oblygiadau o ran rheoli ein hadnoddau naturiol. I'r dyfodol, bydd y Grŵp Bord Gron yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at lywio ei ddarpariaeth, yn enwedig trwy'r gweithgorau a sefydlwyd ar y canlynol: *Masnach a Chadwyni Cyflenwi; Tystiolaeth a Senarios; Rheoli Tir; Moroedd a'r Arfordir; Aer a'r Hinsawdd; Pobl a Chymunedau; Deddfwriaeth a Rheoleiddio.*

Bydd datganiadau ardal, a ddatblygir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth mewn perthynas â'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r adnoddau naturiol mewn ardal benodol. Wrth wneud hynny, byddant yn edrych ar y cyfleoedd i ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol ac yn archwilio'r materion lleol yn yr ardal. Bydd hyn yn darparu sail dystiolaeth hollbwysig i dywys camau gweithredu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac i lywio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â datblygu a chyflwyno Cynlluniau Llesiant a Chynlluniau Datblygu Lleol. Fel hyn, mae Datganiadau Ardal yn gwneud cyfraniad hollbwysig at roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith ac at ddarpariaeth ehangach Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mewn perthynas â monitro a gwerthuso, yn erbyn rôl y Polisi Adnoddau Naturiol o ran amlinellu'r risgiau a'r cyfleoedd trosfwaol sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru, rydym yn datblygu fframwaith trosfwaol ar gyfer ei fonitro a'i werthuso a fydd yn cael ei lywio gan yr arfarniad cynaliadwyedd a gynhelir. Defnyddiodd yr arfarniad y dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ac arfarnodd gyfraniad y Polisi Adnoddau Naturiol ar draws y nodau llesiant. Mewn perthynas â chyflawni'r blaenoriaethau gan y polisïau a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol, bydd y gwaith o fonitro a gwerthuso'r polisïau unigol hyn yn gwneud cyfraniad hollbwysig. Er enghraifft, mewn perthynas â'r ardal forol, bydd hyn trwy Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a fydd yn monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Mewn perthynas â rheoli tir, bydd y rhaglen monitro a modelu ar gyfer yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn darparu sail dystiolaeth i lywio'r dyluniad, i fonitro effaith Glastir ac i fonitro sut y bydd rhaglenni dilynol yn darparu'r Polisi Adnoddau Naturiol.

**Alinio â pholisïau domestig a rhyngwladol**

Roedd alinio'n glir â rhwymedigaethau rhyngwladol yn rhan annatod o'r ymagwedd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r fframwaith deddfwriaethol y maent yn ei roi ar waith wedi'i seilio ar y rhwymedigaethau rhyngwladol yn nhri fframwaith allweddol y Cenhedloedd Unedig ar ddatblygu cynaliadwy, y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd yn deddfu ar gyfer egwyddorion y dull ecosystem yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD). Mae cyflwyno Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Targedau Aichi a amlinellir yng nghynllun strategol CBD. Mae'r blaenoriaethau yn y Polisi Adnoddau Naturiol wedi'u datblygu hefyd i fynd i'r afael â'r sbardunau sylfaenol a'r pwysau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth ac ecosystemau fel sy'n ofynnol gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Felly, bydd fframwaith monitro a gwerthuso'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cynnwys adroddiadau yn erbyn Targedau Aichi CBD.

Fel sydd wedi deillio'n glir o'n hymgysylltu â'r Grŵp Bord Gron, mae Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sylfaen gref i reoli adnoddau naturiol Cymru na fydd yn newid o ganlyniad i Brexit. Mae'r ymgysylltu hwn â'r Grŵp Bord Gron i lywio datblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol wedi tanlinellu pwysigrwydd adnoddau naturiol Cymru o ran diffinio lle newydd Cymru yn y byd. I'r dyfodol, bydd gweithgorau'r Grŵp Bord Gron, ac ymgysylltu â'r sector, yn gwneud cyfraniad allweddol at lywio'r gwaith o gyflwyno'r polisi, gan gynnwys polisi newydd a fframweithiau cyfreithiol ac ariannol wrth i ni nesáu at adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru, rhan allweddol o'r gwaith o adolygu'r polisi yw sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fod wedi'i alinio â'r Polisi Adnoddau Naturiol. Er enghraifft, mae swyddogion Llifogydd a Chynllunio yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod polisïau yn ymwneud a datblygiad a pherygl llifogydd wedi'u halinio'n llawn yn adrannau perthnasol y strategaeth llifogydd, Polisi Cynllunio Cymru a chanllawiau cynllunio cysylltiedig (yn TAN15). Bydd y polisi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**Defnyddio tystiolaeth**

Roedd yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth a lywiodd ddatblygiad yr heriau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Yn ogystal, cynhaliwyd arfarniad cynaliadwyedd annibynnol o'r Polisi Adnoddau Naturiol lle cafodd y meini prawf asesu ar gyfer yr arfarniad eu llywio gan y dystiolaeth yn SoNaRR. Yn ogystal, wrth fynd ati i gyflwyno'r Polisi Adnoddau Naturiol, bydd SoNaRR yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau trwy'r polisïau unigol.

I'r dyfodol, mae fy adran yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru trwy'r Grŵp Tystiolaeth Strategol ar y cyd, ond Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y dystiolaeth ar gyfer iteriad nesaf SoNaRR.

**Amserlenni ac ymgysylltu**

Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd yn amlinellu cylch iterus clir sy'n gysylltiedig â chylch etholiadau'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu'r sail dystiolaeth genedlaethol yn SoNaRR ac i Lywodraeth Cymru gynhyrchu'r Polisi Adnoddau Naturiol sydd, yn ei dro, yn cysylltu â'r gofynion allweddol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. O ystyried y ffaith mai newydd ddechrau mae iteriad cyntaf y cylch hwn a bod yna amserlen glir ar gyfer cynhyrchu'r fersiwn nesaf o SoNaRR, nid wyf yn bwriadu asesu priodoldeb ei amseru a'i fynychder.

Mae'r rhyngwyneb allweddol rhwng y Polisi Adnoddau Naturiol a rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran datblygu'r Cynlluniau Llesiant wedi'i nodi yn Neddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn arbennig, mae'r datganiadau ardal sy'n cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at ddarparu sail dystiolaeth, gan gynnwys ar gyflawni blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol, i lywio datblygiad a chyflwyniad Cynlluniau Llesiant. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod statudol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli gan Uwch Swyddog ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rwy'n croesawu diddordeb y Pwyllgor yng nghyflwyniad y Polisi Adnoddau Naturiol ac rwy'n cytuno ei fod yn gyfle pwysig i Gymru, nid yn unig o ran gwella'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru, ond hefyd o ran y manteision y gall blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol eu cynnig ar draws y Nodau Llesiant a thrwy gefnogi darpariaeth *Ffyniant i Bawb*.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs